CYMDEITHAS GWAITH MAES
RHIFYN 33
TACHWEDD 2006

# Adeiladau yn ein hamgylchedd - Rhan 2

gan Angharad Harris

**Gobeithio'n wir i chi fwynhau eich taith gerdded a dysgu mwy am dai eich ardal.**

Mae pob tŷ yn wahanol mewn rhywffordd neu'i gilydd – rhai wedi cael ffenestri dwbl newydd mewn rhes o dai teras ac eraill heb; un tŷ wedi chwipio a'r gweddill yn parhau i fod o frics.

Sut dŷ fyddech chi yn hoffi byw ynddo?
Oes yna un o'r rhain yn eich taro fel rhai da?

Dyma dasg i chi ..... un sydd angen llawer iawn o ddychymyg a thipyn o feddwl....
**Rhaid i chi ddylunio eich tŷ eich hun!**

**CAM 1**

**Sut le hoffech chi fyw ynddo?**
Defnyddiwch y daflen yma i nodi yr ystafelloedd yr hoffech eu cael a beth fydd defnydd bob un. Gallwch barhau ar dudalen arall os ydych am fod yn fentrus iawn!!

| ENW | DYDDIAD |
|---|---|

| YSTAFELL | DEFNYDD |
|---|---|
| e.e.cegin | e.e. coginio bwyd, golchi llestri, bwyta |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

*Meddyliwch am leoli pob ystafell fel y dymunwch yn awr ar gyfer tŷ unllawr, ddeulawr neu fflat.*




**CAM 2**

Mae'n amser i chi gael papur a phensil allan a dechrau dylunio cynllun eich ystafelloedd. Pan mae penseiri yn gwneud y rhain, maent yn eu gwneud fel petaent yn edrych i lawr o'r awyr ar y tŷ heb dô.

**Cofiwch** fod angen i chi allu mynd i mewn i bob ystafell. Meddyliwch am faint yr ystafelloedd – pa un ddylai fod y mwyaf? Oes angen i bob un fod yn sgwâr, neu fyddai ystafell siap L yn creu diddordeb? Oes angen ffenestr ar bob ystafell?

**Pob lwc i chi.**

**Dyma'r cam olaf.**
Rhaid i bob pensaer gwerth ei halen ystyried y deunyddiau y byddent yn eu defnyddio i adeiladu'r tŷ yn ofalus, a heddiw byddent yn ceisio eu gwneud mor amgylcheddol gyfeillgar a phosibl.
Mae waliau trwchus yn gallu bod yn gostus, ond yn eich cadw yn gynnes yn y gaeaf, felly bydd eich bil trydan/nwy yn is ac felly yn arbed arian i chi. Gall teils ar y tô fod yn rhad ac yn ysgafn, ond mae'n bosib y bydd angen i chi eu hail-osod mewn tua 50 mlynedd, tra fod llechen yn parhau am dros gan mlynedd. Wrth gwrs gallwch orchuddio'r tŷ gyda tywarch i gadw'r gwres i fewn... ond bydd angen i chi dorri'r gwair yn gyson!! Beth am gasglu dŵr glaw o'r gwter a'i ddefnyddio i fflyshio toiledau eich tŷ, neu gael tyrbein gwynt bychain ar ei ochr i gynhyrchu egni i chi.

**CAM 3**

Chwiliwch am wahanol fathau o ddeunyddiau y gallwch eu defnyddio. Gwnewch ddyluniad yn awr o'r tŷ o'r tu allan, a nodwch arno beth fydd y deunydd a pham i chi ei ddewis.
Ydych chi yn hapus gyda'r cynllun? Hoffech chi fyw yno?

Os hoffech fyw ynddo, yna hoffem ni ei weld. Beth am bostio copi i ni, a gallwn arddangos eich gwaith yn y gwe - rifyn nesaf.

Gwaith Maes :: Rhifyn 33